***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 3276

# Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Casnewydd (Newidiadau Etholiadol) 2002

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Casnewydd (Newidiadau Etholiadol) 2002.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym:

(a) at ddibenion achosion, sy'n arwain at unrhyw etholiad neu'n ymwneud ag unrhyw etholiad sydd i'w gynnal ar 6 Mai 2004, ar 9 Hydref 2003, a

(b) at bob diben arall, ar 6 Mai 2004.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "adran etholiadol" ("*electoral division*") yw un o adrannau etholiadol Bwrdeistref Sirol Casnewydd fel y'i sefydlwyd gan Orchymyn Trefniadau Etholiadol Bwrdeistref Sirol Casnewydd 1994(**1**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972.

(**1**) Cafodd y Gorchymyn hwn ei wneud ar 19 Rhagfyr 1994 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref.